



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Eisteddfod  
Genedlaethol, ei Aelodaeth a'i Gylch Gwaith

**DYDDIAD** 2 Hydref 2012

**GAN** Leighton Andrews, y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2012 fe holais a ddylai'r Eisteddfod Genedlaethol foderneiddio. Rwy'n bwriadu sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i drafod opsiynau er mwyn cyflwyno argymhellion i mi ar sut y mae cyflawni hyn. Ni fydd cylch gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys trafodaeth ar newid rheol Gymraeg yr Eisteddfod.

Rwy'n falch o gyhoeddi bod y canlynol wedi cytuno i fod yn aelodau o'r grŵp:

- a) Roy Noble, Cadeirydd
- b) Peter Florence
- c) Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
- d) Eirlys Pritchard Jones
- e) Sioned Wyn Roberts
- f) Nia Parry
- g) Bethan Elfyn
- h) Aran Jones
- i) John Pritchard
- j) Daniel Evans
- k) Ali Yassine
- l) Sian Eirian

Bydd y grŵp yn ystyried:

- a. Beth yw'r manteision a'r anfoneision o adleoli'r Eisteddfod bob blwyddyn rhwng De a Gogledd Cymru ac i leoliadau newydd bob tro? Beth fyddai manteision ac anfoneision modelau eraill? A ddylid dilyn cylch pedair blynedd gan leoli'r Eisteddfod ar ddau safle parhaol, un yn y Gogledd-orllewin a'r llall yn y Gorllewin, a theithio rhwng y De a'r Gogledd am yn ail ar gyfer y ddwy flynedd arall?;

- b. A allai lleoliadau parhaol i'r Eisteddfod ysgogi'r ardaloedd hynny yn economaidd, gan hybu twristiaeth ddiwylliannol, ac adlewyrchu y celfyddydau yng Nghymru ar eu gorau?
- c. Beth yw manteision ac anfanteision y model presennol a ddefnyddir i drefnu wythnos yr Eisteddfod a chystadlaethau'r wythnos dan reolaeth y Pwyllgor Gwaith a'r Llys? Beth fyddai manteision ac anfanteision modelau eraill? Er enghraifft, yn y dyfodol a ellid trefnu wythnos yr Eisteddfod ar wahân i'r cystadlaethau er mwyn gwella profiad ymwelwyr ac atyniad yr Eisteddfod fel un o ddigwyddiadau diwylliannol pwysicaf Cymru?
- d. Sut mae cynnal a chefnogi ymrwymiad, brwdfrydedd a gweithgarwch y gwirfoddolwyr ledled Cymru?
- e. Sut mae sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar yr oes ddigidol hon wrth roi sylw i'r Eisteddfod yn y cyfryngau?
- f. Sut mae sicrhau bod yr Eisteddfod yn cynnig profiad cyfoethog i ymwelwyr newydd, gan gynnwys pobl o gefndiroedd di-Gymraeg, gan gynnwys, er enghraifft, gwell arwyddion, amserlenni digwyddiadau a chymorth gyda offer cyfieithu?
- g. Sut gall yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol weithio yn agosach gyda'i gilydd i rannu gwasanaethau ac adnoddau?
- h. Sut mae manteisio ar ffynonellau eraill o gyllid refeniw i'r Eisteddfod?
- i. Sut mae cynyddu niferoedd ymwelwyr i'r Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod, gan dargedu pobl ifanc a theuluoedd yn benodol?

Bydd y Grŵp yn derbyn tystiolaeth gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys darlledwyr, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd. Bydd yn adrodd i mi ym mis Medi 2013.